**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad Atodol ar y Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru)

Chwefror 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol **www.cynulliadcymru.org**

I gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8618
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Fin.Comm@wales.gsi.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

## Aelodau'r Pwyllgor



**Angela Burns (Cadeirydd)**
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Plaid Geidwadol Cymru



**Lorraine Barrett**
De Caerdydd a Phenarth
Llafur



**Andrew Davies**
Gorllewin Abertawe
Llafur



**Chris Franks**
Canol De Cymru
Plaid Cymru



**Brian Gibbons**
Aberafan
Llafur



**Ann Jones**
Dyffryn Clwyd
Llafur



**Nick Ramsay**
Sir Fynwy
Plaid Geidwadol Cymru



**Janet Ryder**
Gogledd Cymru
Plaid Cymru



**Kirsty Williams**
Brycheiniog a Sir Faesyfed
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

## CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CYLLID

### Adroddiad Atodol ar y Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru)

**Cefndir**

1. Mae Rheol Sefydlog 14.2 yn datgan:

> *Caiff y Pwyllgor [Cyllid] hefyd ystyried ac, os yw'n gweld yn dda, gyflwyno adroddiad ar:*
>
> *wybodaeth ariannol yn y memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â Mesurau Cynulliad arfaethedig;*

**Ystyriaeth**

2. Cyflwynodd y Pwyllgor Cyllid adroddiad ar y Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru) ar 13 Tachwedd 2009. Yn yr adroddiad hwnnw mynegodd y Pwyllgor Cyllid bryderon am y wybodaeth a ddarparwyd i gefnogi'r Mesur arfaethedig. Anogwyd Nerys Evans AM, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig, i ddarparu gwybodaeth ychwanegol o'r ffynonellau a nodwyd, ac i gyflwyno asesiad amgen o'r costau i'r Pwyllgor Cyllid.

3. Ar ôl hynny, darparodd yr Aelod wybodaeth bellach a drafodwyd gan y Pwyllgor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2010. Caiff y dystiolaeth hon ei chynnwys yn atodiad A i'r adroddiad hwn.

**Angela Burns**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**

**Atodiad A**

**Angela Burns AC**
**Cadeirydd / Chair**
**Y Pwyllgor Cyllid / Finance Committee**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

10 Rhagfyr 2009

Annwyl Angela

**Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru)**

Ysgrifennaf atoch i ddiolch i chi am adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar oblygiadau ariannol fy Mesur arfaethedig.

Isod, rwyf wedi nodi ychydig o wybodaeth ychwanegol am y costau posibl. I grynhoi, mae **costau uniongyrchol** fy Mesur arfaethedig yn **isel iawn** oherwydd nid yw'r Mesur arfaethedig yn gosod unrhyw rwymedigaeth ar awdurdodau lleol y tu hwnt i'r gofyniad eu bod yn cyhoeddi gwybodaeth ar wefan am gyfran y deunyddiau ailgylchu sy'n cael eu casglu o gartrefi, ac sy'n cael eu prosesu y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd (EC) a'r Ardal Masnach Rhydd Ewropeaidd (EFTA), **cyd ag y bo'r wybodaeth honno yn bodoli.**

Dyma **gostau anuniongyrchol** posibl y Mesur arfaethedig:

| | |
|---|---|
| Addasu'r system WasteDataFlow | Cost un tro o £20,000 (Mae'r Gweinidog yn fodlon talu'r gost hon) |
| Amser staff awdurdod lleol i gasglu a chrynhoi gwybodaeth o'r ffurflenni Atodiad VII | Uchafswm o £350,000 y flwyddyn (amcangyfrif y Gweinidog) - fodd bynnag, y mae'n debygol o fod llawer yn is, yn enwedig unwaith i'r systemau fod yn eu lle |
| Cyhoeddusrwydd/ateb ymholiadau gan y cyhoedd | Costau minimol |
| Cwmnïau preifat | Costau isel iawn o ddilyn a choladu ffurflenni Atodiad VII |

Wrth ymateb i bryderon cyffredinol y Pwyllgor mai gwybodaeth gyfyngedig yn unig sydd wedi cael ei ddarparu ar gostau'r Mesur arfaethedig, gallaf ond ailadrodd y pwynt a godais yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, sef bod **y costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r Mesur**

**arfaethedig yn isel iawn.** Fel y dywedais yn fy nhystiolaeth i'r pwyllgor, wrth gyflwyno'r Mesur arfaethedig am y tro cyntaf, ysgrifennodd y Llywydd ataf yn datgan ei farn na fyddai Penderfyniad Ariannol gan y Llywodraeth yn angenrheidiol yng Nghyfnod 2 - sy'n cefnogi fy marn bod costau uniongyrchol fy Mesur arfaethedig yn isel iawn. Rwy'n deall bod y Llywydd wedi ysgrifennu atoch eto yn cadarnhau ei safbwynt na fyddai angen ariannu sylweddol yn sgil gweithredu'r Mesur arfaethedig, felly ni fydd angen Benderfyniad Ariannol oherwydd bod y Mesur arfaethedig yn gofyn i awdurdodau lleol gasglu a chyhoeddi'r wybodaeth sydd ganddynt yn barod yn unig.

Fel yr esboniais i'r Pwyllgor, nid yw'r Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd y tu hwnt i'r gofyniad bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod gwybodaeth am gyfran y deunyddiau ailgylchu sy'n cael eu casglu o gartrefi a gaiff eu prosesu y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd (EC) a'r Ardal Masnach Rhydd Ewropeaidd (EFTA) ar gael i'r cyhoedd, **cyd ag y bo'r wybodaeth honno yn bodoli**. Hefyd, disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn cymryd 'camau rhesymol' yn unig i gasglu'r wybodaeth a chynhyrchu datganiad yn esbonio pa gamau a gymerwyd.  Felly, unig gostau uniongyrchol y Mesur arfaethedig yw'r gost o gyhoeddi'r flynyddol wybodaeth am allforion lle mae'r wybodaeth honno yn bodoli, neu, os nad yw'n bodoli, datganiad yn esbonio'r camau a gymerwyd i gael y wybodaeth, a hynny ar y we.

Wrth gwrs, dros amser, rwy'n disgwyl y bydd mwy o'r wybodaeth hon ar gael o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig, yn rhannol oherwydd bydd y sawl sy'n rheoleiddio'r broses o drin gwastraff yn cofnodi ac yn asesu'r wybodaeth am allforion yn well. Fel y nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth a ystyriodd fy Mesur arfaethedig, mae hefyd yn bosibl gallai'r Mesur arfaethedig gael ei ddiwygio yn y dyfodol, unwaith bydd y Cynulliad yn cael cymhwysedd ychwanegol, drwy'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch yr Amgylchedd, i alluogi gosod dyletswydd ar gwmnïau sy'n trin gwastraff i roi'r wybodaeth hon i awdurdodau lleol.

Rwy'n sylwi bod eich adroddiad yn datgan nad wyf wedi darparu dewis arall i ffigur Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o £700,000, neu resymau i esbonio pam fy mod yn anghytuno â'r ffigur hwn. Dywedais wrth y pwyllgor:

> I totally dispute that figure. It will not take a full-time post at all to do this work; it is a matter of incorporating the work into systems that already exist.
>
> [...]
>
> The WLGA estimate is based on the first draft of the proposed Measure. I have done preparatory consultation on it, after which I changed the proposed Measure. The first draft included a requirement for the information to be collected, but after the consultation, I changed that so that the proposed Measure will only require them to take reasonable steps to collect information and, if no information is available, to produce a statement explaining the steps taken to try to get that information. So, I have changed the proposed Measure since that consultation so that, now, it does not impose any further duties other than make publicly available information about the proportion of recycling that is processed outside the EC and the European free trade area, and only where such information exists. The only real direct costs of the proposed Measure to local authorities would be in preparing and publishing an annual statement.

Er nad yw fy Mesur arfaethedig yn gofyn bod gwybodaeth yn cael ei gasglu ynghylch allforio gwastraff, gallaf ddeall pam fyddai'r Pwyllgor am **gael syniad o unrhyw gostau anuniongyrchol** a allai godi o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig.

Pan oeddwn yn paratoi'r Mesur arfaethedig, cynhaliais arolwg o awdurdodau lleol Cymru er mwyn darganfod i ba raddau yr oedd gwybodaeth am allforio gwastraff yn cael ei gasglu eisoes. Ymysg y **10 awdurdod** a ymatebodd i'r arolwg hwn, dywedodd pedwar ohonynt fod eu dyletswydd gofal yn dod i ben mewn cyfleuster adennill deunydd (MRF) neu brosesydd trwyddedig arall yn y DU ac nad oedd ganddynt ragor o wybodaeth ynghylch pen taith y deunydd, dywedodd dau fod peth o'u gwastraff yn cael ei allforio a dywedodd pedwar fod y rhan fwyaf o'i holl wastraff yn cael ei brosesu yn y DU. Dim ond **un awdurdod lleol** oedd yn gallu darparu gwybodaeth fanylach ynghylch pen taith deunydd sy'n cael ei allforio. Rwyf eisoes wedi ceisio cael rhagor o wybodaeth gan yr awdurdod hwn ynghylch sut y mae'n casglu'r wybodaeth hon a beth yw'r gost o wneud hyn. Fodd bynnag, mae'r awdurdod dan sylw wedi bod yn anfodlon darparu rhagor o fanylion.

Ers i mi ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid, mae'r **adroddiad gan Enviros Consulting Limited** ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru ar effaith posibl y Mesur arfaethedig wedi dod i law. Ysgrifennais atoch ar 12 Hydref i nodi bod yr adroddiad hwn wedi dod i'r casgliad y dylai defnyddio'r drefn reoleiddio bresennol **leihau goblygiadau o ran cost yn sylweddol**, er y bydd rhai goblygiadau ar awdurdodau lleol Cymru o ran adnoddau wrth gasglu'r data sydd ei angen yn ôl y Mesur arfaethedig. O ganlyniad, casgliad yr adroddiad yw y byddai'n bosibl addasu'r system **WasteDataFlow** i gasglu'r wybodaeth sydd ei angen yn ôl y Mesur am gost rhwng **£10,000 a £20,000**.

Mae adroddiad Enviros yn amlinellu'n glir y modd y gallai awdurdodau lleol gael gafael ar y wybodaeth a yn Adran 55A(5) o fy Mesur arfaethedig drwy wybodaeth a gesglir eisoes fel un o ofynion y Transfrontier Shipment of Waste Regulations 2007. Mae Rheoliad 45 yn gofyn bod rheolyddion pob llwyth o wastraff 'rhestr werdd' yn llenwi ac yn llofnodi ffurflen 'Atodiad VII' a chadw copi ohoni am dair blynedd. Nid yw'r wybodaeth a gesglir gan y ffurflenni hyn yn cyfateb yn hollol i'r hyn sydd yn Adran 55A(5) o fy Mesur arfaethedig, ond maent yn darparu gwybodaeth debyg a **dywedais wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth y byddwn yn barod i ddiwygio fy Mesur arfaethedig er mwyn iddo gydymffurfio â gofynion y ffurflen 'Atodiad VII'.**

Mae adroddiad Enviros hefyd yn nodi bod sawl nam ymarferol yn y broses o gasglu gwybodaeth am allforion drwy ddefnyddio ffurflenni 'Atodiad VII'. Fodd bynnag, yn fy marn i, gellir ymdrin â rhai o'r namau hyn yn hawdd, er enghraifft drwy baratoi canllawiau. Gellid goresgyn yr anawsterau eraill unwaith i'r Mesur arfaethedig ddod yn ddeddf ac, mewn gwirionedd, mae adroddiad Enviros yn awgrymu sut y gellir ymdrin â'r rhan fwyaf ohonynt.

Y gwaith sydd angen i bob awdurdod lleol ei wneud yw casglu'r ffurflenni 'Atodiad VII', diweddaru fersiwn diwygiedig o'r gronfa ddata WasteDataflow a chyhoeddi'r wybodaeth hon ar eu gwefan, felly yn fras, byddwn yn amcangyfrif y bydd y gwaith hwn yn cymryd un neu ddau fis ar y mwyaf i un swyddog ym mhob awdurdod lleol. Rwyf yn derbyn y bydd y baich gwaith yn amrywio rhwng awdurdodau, yn dibynnu ar y trefniadau presennol ar gyfer casglu a thrin gwastraff, ond, fel amcangyfrif Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cyfartaledd yw hwn dros y 22 awdurdod. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, awgrymodd y Gweinidog gost o **£350,000 y flwyddyn** (neu £15,900 i bob awdurdod ar gyfartaledd). Pwysleisiodd y Gweinidog hefyd y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol dalu'r costau hyn eu hunain.

**Rwyf wedi gofyn i Enviros Consulting Limited i ddarparu amcangyfrif mwy pendant o'r gost i awdurdodau lleol.** Dyma eu hymateb:

> Whilst we do not foresee that one full time officer per authority will be needed to capture and process the required information, there remain significant unknowns as to the

> comprehensiveness and accuracy of the data currently being captured within the system. Without further research it is not possible to give an accurate indication of likely costs and whilst we consider the WLGA estimate to be excessive, based on our knowledge to date, we cannot accurately gauge what the actual costs will be at this time.
>
> If information is not readily available then the costs will be dependent on the extent to which local authorities pursue this information, whilst on the other hand, if the information is readily available then costs will be expected to be a fraction of the mooted £700K, as the effort to process and publish the captured information is not considered onerous. In addition, costs will be expected to reduce over time as the system becomes mature.

Yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, cyfeiriais at enghraifft **Partneriaeth Wastraff Gwlad yr Haf**. Mae'r bartneriaeth yn cyhoeddi cofrestr flynyddol o sut y caiff deunydd ailgylchu ei ddefnyddio yn y pen draw, sy'n cynnwys gwybodaeth am allforio gwastraff y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd / Ardal Masnach Rydd Ewrop.

Fel y soniais eisoes, yn ystod y broses o baratoi'r Mesur arfaethedig, cysylltais â phartneriaeth Gwlad yr Haf sawl tro gyda'r bwriad o drefnu ymweliad er mwyn trafod yr wybodaeth a gyhoeddir yn y gofrestr a beth yw'r gost o wneud hyn. Fodd bynnag, nid oeddent yn gallu cyfarfod â mi bryd hynny. Erbyn hyn, rwyf yn deall na allant ddarparu amcangyfrif penodol o'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith o gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am allforio deunydd ailgylchu.

Defnyddiais enghraifft partneriaeth Gwlad yr Haf i egluro y gall y broses o gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am allforio gwastraff fod yn un syml. Fodd bynnag, dangosodd gohebiaeth a ddaeth i law hyd yn oed pe gallent ddarparu amcangyfrif o'r costau sy'n gysylltiedig â'u gweithgareddau, ni ellid cymharu hyn yn uniongyrchol â'r hyn sydd yn fy Mesur arfaethedig. Y rheswm am hyn yw nad yw'r wybodaeth am wastraff a gaiff ei allforio dramor y maent yn ei chasglu a'i chyhoeddi mor fanwl â'r hyn a amlinellir yn fy Mesur arfaethedig, neu'r hyn a ellir ei dynnu o'r ffurflenni 'Atodiad VII'. Yn ogystal, caiff y rhan fwyaf o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu yng Ngwlad yr Haf eu didoli pan gânt eu casglu yn y lle cyntaf, sy'n ei gwneud hi'n haws i ddilyn hynt y deunydd.

Dywed eich adroddiad bod hyd yn oed llai o wybodaeth mewn perthynas â'r costau y bydd rhaid i **gwmnïau preifat** eu talu.

Unwaith eto, byddwn yn eich atgoffa nad yw'r Mesur arfaethedig presennol yn gosod **unrhyw gofynion ar gwmnïau preifat**. Yn wir, byddai hyn y tu allan i gwmpas fy Mesur arfaethedig. Yn ogystal, cesglir llawer o'r wybodaeth eisoes gan y cwmnïau hyn o ganlyniad i'r fframwaith rheoleiddio presennol, ac felly nid yw fy Mesur arfaethedig yn gosod unrhyw gostau ychwanegol. Mae adroddiad Enviros yn cynnwys enghreifftiau sy'n esbonio bod busnesau ailgylchu yng Nghymru eisoes yn casglu gwybodaeth am allforio gwastraff gan ddefnyddio ffurflenni 'Atodiad VII'. **Yr unig gostau anuniongyrchol fyddai'r gost o asesu y ffurflenni hyn a'u coladu, a bach iawn fyddai'r costau hyn.**

Mae cwmnïau ailgylchu preifat, wrth gwrs, wedi cael dau gyfle i ymateb i fy Mesur arfaethedig; drwy'r ymarfer ymgynghori a gynhaliais a'r ymgynghoriad dilynol a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth.

Mae'r Pwyllgor yn cyfeirio at **godi ymwybyddiaeth y cyhoedd** am wastraff sy'n cael ei gludo dramor, ac mae'n awgrymu y gallai hyn gynyddu pwysau gan y cyhoedd i ymdrin â'r gwastraff yn lleol, a gallai hyn, yn ei dro, gynyddu costau. Rwyf wedi pwysleisio nad bwriad fy Mesur arfaethedig yw dadlau yn erbyn adfer deunydd dramor gan brosesyddion cyfreithlon os mai dyna yw'r opsiwn gorau o ran yr amgylchedd. Yr unig beth mae'r Mesur

arfaethedig yn ei wneud yw sicrhau bod gan y cyhoedd mwy o wybodaeth am gludo gwastraff a gaiff ei ailgylchu wedi cynnal **ymgyrch i godi ymwybyddiaeth** am y farchnad ailgylchu. Pan fo awdurdodau lleol yn cyhoeddi gwybodaeth am ddeunydd ailgylchu sydd wedi cael ei allforio tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd / Ardal Masnach Rydd Ewrop, gallant gynnwys nodyn i esbonio pam oedd angen gwneud hyn a gosod y wybodaeth hon yng nghyd-destun eu holl waith ailgylchu a phrosesu gwastraff. Bach iawn fyddai'r gost o wneud hyn.

Mae ymwybyddiaeth gyffredinol o faterion yn ymwneud â gwastraff ymysg aelodau'r cyhoedd hefyd yn cynyddu. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r ymgyrch Cynllun Craff am Wastraff sy'n cael ei weithredu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sy'n darparu ar gyfer ymgyrchoedd cenedlaethol yn y cyfryngau i hybu ailgylchu. Mae hefyd yn cefnogi ymgyrchoedd lleol gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys cyfres o hysbysebion cenedlaethol ar y teledu, radio a chyfryngau cenedlaethol eraill.

Gobeithiaf y bydd y Pwyllgor yn derbyn bod y wybodaeth uchod yn darparu digon o fanylion am oblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig.

Yn gywir,

Nerys Evans AC